Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Talsarnau
# Talsarnau
# Gwynedd
# LL47 6TA

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2014**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym mhentref Talsarnau sydd oddeutu tair milltir o dref Harlech yng Ngwynedd. Mae 36 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 4 o blant meithrin rhan-amser. Maent wedi'u trefnu'n ddau ddosbarth oed cymysg.

Mae oddeutu 85% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Nid oes yr un disgybl sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan 17% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r ganran genedlaethol. Ychydig iawn o disgyblion sydd â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Nid oes yr un disgybl â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Talsarnau yn 2013-2014 yw £5,562. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,616 a'r lleiafswm yw £2,936. Mae Ysgol Talsarnau yn safle 22 o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Mae'r ysgol yn cael ei harwain gan bennaeth strategol ers Ionawr 2013 sydd hefyd yn bennaeth ar ysgol arall yn y dalgylch.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn ystod Mehefin 2008.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion o bob oedran yn dda;
- disgyblion o bob oedran yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn ofalus o'i gilydd;
- yr ysgol yn darparu cwricwlwm cyfoethog a dychmygus;
- athrawon yn disgwyl llawer gan bob disgybl ac yn eu herio i gyflawni'n dda;
- sicrhau iechyd a lles disgyblion yn flaenoriaeth uchel yn yr ysgol; a'r
- ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i ddangos parch at eraill.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- arweinyddiaeth a rheolaeth y pennaeth a'r llywodraethwyr yn effeithiol;
- systemau cyfathrebu clir ac ymdeimlad cryf o waith tîm yn yr ysgol;
- hunanarfarnu wedi arwain at welliannau mewn safonau ac addysgu;
- athrawon yn cyflawni eu rolau yn gydwybodol ac yn effeithiol;
- partneriaethau cryf yn cyfrannu'n dda at gynnydd a lles disgyblion; a'r
- ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Sefydlu trefn ysgol gyfan ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar gynnwys y cwricwlwm

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl yn rhoi o'u gorau mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae disgyblion o bob oedran yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn chwim ac yn ei gymhwyso yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd newydd. Mae bron pob un yn gwneud cynnydd cyson yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau meddwl ar gyfer datrys problemau ymarferol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r defnydd medrus o dystiolaeth hanesyddol gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wrth iddynt geisio olrhain cysylltiadau teuluol hen gapten llong.

Mae medrau llythrennedd disgyblion o bob oedran yn dda. Mae bron pob un yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud yn ystod sesiynau torfol ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus a chywir. Mae pob un yn dewis llyfrau'n annibynnol ac yn defnyddio ystod eang o ffyrdd i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod, maent yn ysgrifennu'n rhugl ac yn defnyddio geiriau, ymadroddion, idiomau a brawddegau yn effeithiol i gynhyrchu darnau ysgrifenedig sydd yn aml yn ddiddorol ac yn ddychmygus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn cyfrannu'n feddylgar mewn trafodaethau grŵp a dosbarth gan ddefnyddio iaith lafar raenus. Maent yn ddarllenwyr hyderus a phybyr ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Trwy'r cyfnod allweddol, mae llawer o'r disgyblion yn fedrus iawn wrth ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o lyfrau cyfeirio Saesneg i gefnogi eu gwaith yn y Gymraeg. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n fedrus at nifer o ddibenion ac yn arddangos rhuglder a chywirdeb cynyddol yn eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn treiglo'n gywir ac yn defnyddio amrywiaeth dda o ansoddeiriau ac ymadroddion i gyfoethogi eu mynegiant.

Mae medrau rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae pob disgybl yn defnyddio'r ieithwedd fathemategol gywir wrth siarad am eu syniadau ac yn hyderus iawn wrth ddarllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100. Maent yn defnyddio unedau safonol gyda manwl gywirdeb addas i fesur gwrthrychau o wahanol feintiau ac maent yn hyderus iawn wrth ddisgrifio priodoleddau siapiau solet a rhai gwastad. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r holl ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn gweithgareddau chwarae a datrys problemau yn yr ystafell dosbarth ac yn yr ardal y tu allan, er enghraifft wrth brynu nwyddau yn y siop, yn gadarn iawn.

Mae medrau rhifedd bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod dda o strategaethau cyfrifo pen i ddatrys problemau rhif ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau. Wrth ymwneud ag ymchwiliadau gwyddonol, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrediad eang o fesurau safonol gyda manwl gywirdeb. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o gronfeydd data ar gyfer cofnodi a dehongli data. Ar

draws y cyfnod allweddol, mae gallu bron pob disgybl i gymhwyso eu medrau rhifedd ar gyfer datrys problemau ymarferol, yn gadarn.

Niferoedd bach o ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 a 2013, ac felly, nid yw'n briodol cymharu perfformiad yr ysgol â meincnodau cenedlaethol.

Mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2 o gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, wedi amrywio'n sylweddol dros y cyfnod 2010 i 2013. Bu perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y 25% uchaf yn 2010 a 2013 ac yn 25% isaf yn ystod y blynyddoedd eraill.

Nid oedd unrhyw duedd cyson o wahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched o un flwyddyn i'r llall, na rhwng cyflawniadau disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim â gweddill y garfan.

**Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gamdriniaeth gorfforol neu eiriol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gael bwydydd iachus ac i ddatblygu ffitrwydd.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd bron pob disgybl yn dda. Mae disgyblion o bob oedran yn cydweithio'n gyfeillgar mewn grwpiau ac, wrth iddynt symud o amgylch yr ysgol neu wrth chwarae ar y buarth, maent yn gwrtais â'i gilydd ac yn ofalus o ddisgyblion eraill. Maent yn gyfeillgar mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ac yn cyd-dynnu'n rhwydd ag athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol.

Mae'r disgyblion hŷn yn ysgwyddo cyfrifoldebau, megis helpu yn ystod amser cinio ac ymgymryd â rôl 'Bydis Buarth,' yn aeddfed iawn.

O oedran cynnar, mae disgyblion yn hyderus iawn wrth wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu. Maent yn mynd i'r afael â thasgau penagored yn fedrus ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i wella eu dysgu.

Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn chwarae rôl bwysig ym mywyd cymdeithasol yr ysgol. Serch hynny, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion o bob oedran ddylanwadu ar gynnwys y cwricwlwm ac ar fywyd a gwaith yr ysgol yn gyffredinol.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned leol ac mae'r cyfleoedd rheolaidd a gaiff disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau cymdeithasol

Mae cyfraddau presenoldeb yn gyson uchel, ac wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang o brofiadau dysgu symbylus sy'n bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen wedi'i seilio'n gadarn ar y chwe maes dysgu ac ar roi rôl weithredol i ddisgyblion yn eu dysgu. Mae'r cwricwlwm ar ddechrau cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion ac yn sicrhau bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod disgyblion o bob oedran yn caffael medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ac yn arwain at safonau cyflawniad da. Mae'r cwricwlwm yn bodloni'r holl ofynion statudol, gan gynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn llawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig mewn amrywiol gyd destunau yn gyfoethog ac yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da. Rhoddir sylw da i astudio'r amgylchedd lleol, hanes, a llên gwerin yr ardal mewn cyd-destun diwylliant Cymru. Mae ymweliadau gan Y Fari Lwyd a chan siaradwr gwadd i drafod Glasynys a'r Ysgwrn, yn atgyfnerthu ymglymiad disgyblion i'w hardal leol.

Mae'r ystod eang o brofiadau ychwanegol, sy'n cynnwys ymweliadau addysgol a'r cyfleoedd i ymuno â gweithgareddau'r gymuned, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn sylweddol. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol i helpu disgyblion i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang. Er enghraifft, bu disgyblion cyfnod allweddol 2 yn astudio materion megis apartheid, hiliaeth a ffyrdd pobl o fyw.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn disgwyl llawer gan bob disgybl ac yn eu herio i gyflawni'n dda. Maent yn cynllunio gwersi'n drwyadl ac yn pennu amcanion clir ar gyfer y profiadau dysgu ac yn sicrhau bod cyfleoedd cyson ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae gweithgareddau dysgu wedi'u gwahaniaethu ofalus er mwyn bodloni gofynion unigol pob disgybl ac ennyn eu diddordeb. Yn ystod sesiynau, mae athrawon a chymorthyddion yn ymyrryd yn amserol ac yn grefftus mewn dysgu disgyblion a, thrwy holi medrus, yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r gwaith dan sylw. Mae'r berthynas waith glòs sydd wedi'i sefydlu rhwng staff a disgyblion yn arwain at addysgu a dysgu llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi cryfhau ei threfniadau ar gyfer asesu ar gyfer dysgu. Trwy farcio pwrpasol, caiff disgyblion arweiniad defnyddiol ynghylch safon eu gwaith a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i'w wella. Mae'r arfer o bennu targedau gwelliant i bob unigolyn, ac o gynnwys y disgyblion eu hunain yn y drafodaeth, yn hyrwyddo deilliannau dysgu da.

Er bod athrawon yn cadw cofnodion manwl o asesiadau disgybl unigol, nid oes trefn ysgol gyfan ar gyfer olrhain cynnydd yr holl ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da ac yn rhoi gwybodaeth fuddiol iddynt am gynnydd a lles eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus ac iddi ethos cartrefol, gofalgar ac mae ganddi bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr a phriodol. Mae'r staff yn creu amgylchedd diogel lle mae iechyd a lles disgyblion yn flaenoriaeth uchel. Maent yn ymateb yn effeithiol i unrhyw achosion honedig o aflonyddu neu fwlio. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hanfodion bwyta'n iach, ffitrwydd ac ymarfer corff rheolaidd yn cael eu meithrin yn effeithiol drwy'r ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i ddangos parch at eraill. Mae'r sesiynau cydaddoli ysgogol yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion.

Mae'r defnydd effeithiol a wna'r ysgol o arbenigeddau amrediad o asiantaethau ac elusennau eraill yn ei galluogi i gefnogi lles a dysgu disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod dda o ddulliau ar gyfer adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar. Mae'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar gyfer y disgyblion hyn yn effeithiol ac yn arwain at gynnydd cyson mewn dysgu a safonau. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol manwl sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mewn achosion penodol, mae'r ysgol yn manteisio ar gydweithrediad gwasanaethau megis seicolegwyr addysg ac athrawon arbenigol yr awdurdod addysg. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cod Ymarfer.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn creu amgylchedd croesawgar a hapus sydd yn cyfrannu'n dda at gefnogi dysgu ac addysgu. Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar sydd yn dathlu amrywiaeth ac yn gwerthfawrogi pob dysgwr. Mae'n sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl ac yn cryfhau hunanhyder unigolion.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau pwrpasol sydd o ansawdd da yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cynnwys offer cyfrifiadurol sy'n cael ei ddefnyddio'n bwrpasol gan ddisgyblion ac athrawon i gefnogi dysgu ac addysgu.

Mae staff a disgyblion yn gwneud y defnydd gorau posibl o adeiladau ac ystafelloedd yr ysgol. Mae'r neuadd gymuned sy'n rhan o adeilad yr ysgol, yn adnodd gwerthfawr sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan athrawon ar gyfer cynnal gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau eraill. Mae amgylchedd dysgu ysgogol ynghyd â'r arddangosfeydd deniadol, yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn sylweddol.

Caiff yr ardal tu allan ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen, ynghyd â buarth chwarae a chae'r ysgol, eu defnyddio'n bwrpasol. Fodd bynnag, nid oes man priodol i ddisgyblion gysgodi rhag haul poeth na thywydd garw ac mae hyn yn cyfyngu ar y defnydd o'r ardal.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth strategol yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac mae wedi sefydlu systemau cyfathrebu clir ac ymdeimlad cryf o waith tîm ymysg yr holl staff. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at bennu cyfeiriad strategol ac ysgol hunanfeirniadol sy'n datblygu'n barhaus. Caiff y pennaeth ei chefnogi yn dda gan staff sydd yn rhannu'r un weledigaeth a gwerthoedd wrth gefnogi'r ymdrechion i wella safonau ac ansawdd yr addysgu.

Yn ystod eu cyfarfodydd rheolaidd, mae'r pennaeth a'r staff yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau'r ysgol ac ar sicrhau bod polisïau a chynlluniau gwella'n cael eu gweithredu'n gyson gan bob aelod staff. Mae'r athrawon wedi llwyddo i gyflawni eu rolau o fewn y gyfundrefn gymharol newydd, yn gydwybodol ac yn effeithiol. Mae'r swydd-ddisgrifiadau manwl yn cysylltu'n dda â chyfrifoldebau unigol pob aelod staff.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg ac maent yn herio arweinyddiaeth yr ysgol yn briodol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae wedi gweithredu'n llwyddiannus i wella safonau llythrennedd ac mae'n sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu yn rhan allweddol o weithdrefnau'r ysgol ac mae gan y staff a rheolwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a mannau lle mae angen gwelliant. Mae trefniadau hunanarfarnu yn fanwl ac yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol a data perthnasol i adnabod cynnydd a nodi agweddau i'w datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd disgyblion, deilliannau arsylwi gwersi ar y cyd gydag athrawon ysgol arall, craffu ar waith ac adroddiadau allanol. Caiff llais y disgyblion a'r rhieni le pwysig yn yr hunanarfarnu.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl ac yn rhoi darlun gwrthrychol a chywir o sefyllfa gyfredol yr ysgol ynghylch dysgu, addysgu a safonau. Er hynny, tuedda'r adroddiad, ar adegau, i fod yn rhy ddisgrifiadol ac i beidio â chanolbwyntio ddigon ar ddeilliannau disgyblion. Mae gan bob aelod o staff a llywodraethwyr berchnogaeth gref dros yr adroddiad.

Mae'r cynllun gwella yn ddogfen fuddiol ar gyfer llywio datblygiadau a rhoi cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. Mae cyswllt cryf rhwng blaenoriaethau'r cynllun a deilliannau hunanarfarnu. Caiff datblygiadau eu cynllunio'n ofalus, nodir y deilliannau disgwyliedig ynghyd â'r cyfrifoldebau a ddynodir i unigolion. Mae hefyd yn cynnwys

brasamcan o’r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi’r datblygiadau. Caiff gweithrediad y cynllun, ynghyd ag effaith y datblygiadau ar yr ysgol, eu trafod yn gyson mewn cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol.

Gall yr ysgol ddangos bod hunanarfarnu wedi arwain at welliannau gweladwy mewn darpariaeth a safonau. Er enghraifft, yn ei strategaeth ar gyfer datblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae cysylltiadau cynhyrchiol gyda nifer o bartneriaid strategol sy’n cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad, lles a phrofiadau dysgu disgyblion.

Mae partneriaethau cryf gyda’r rhieni a’r gymuned leol. Er enghraifft, mae defnydd yr ysgol o’r neuadd gymunedol a’i hystafell gyfrifiadurol wedi codi disgwyliadau a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y disgyblion. Mae’r partneriaethau gydag ymwelwyr a gwirfoddolwyr lleol yn effeithiol iawn ac yn cael effaith bositif ar ymwybyddiaeth y disgyblion o’u cymuned. Yn yr un modd, mae cysylltiadau gyda busnesau lleol wedi gwella medrau rhifedd disgyblion ac wedi cynyddu eu dealltwriaeth o reolaeth ariannol.

Mae cydweithio agos rhwng yr ysgolion cynradd lleol i rannu profiadau o ran datblygu staff a chymorthyddion, ac i rannu syniadau, llwyddiannau a dulliau cyflwyno amrywiol agweddau fel llythrennedd. Mae hyn wedi cael dylanwad cryf ar godi safonau. Mae gweithdrefnau safoni a chymedroli yn gadarn ac wedi miniogi asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae cyswllt agos sydd rhwng yr ysgol a’r cylch meithrin sydd ar yr un safle, yn hwyluso’r trefniadau trosglwyddo disgyblion i’r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol iawn. Yn ogystal, mae rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau ac ymweliadau ar gyfer disgyblion sydd ar fin trosglwyddo i’r ysgol uwchradd leol, yn eu helpu i ymgartrefu’n gyflym yn eu hysgol newydd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol gynlluniau ariannol cadarn. Caiff staffio ac adnoddau, gan gynnwys adnoddau ariannol, eu rheoli a’u defnyddio’n effeithiol i gefnogi ac i wella dysgu. Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu’n dda â blaenoriaethau’r cynllun gwella ac anghenion cyfredol yr ysgol. Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi addasu ei phenderfyniadau gwariant yn briodol yng ngoleuni newid yn strwythur y tîm arweinyddiaeth a rhagolygon cynnydd yn nifer y disgyblion.

Caiff amser cynllunio, paratoi ac asesu ei drefnu’n effeithlon. Mae prosesau rheoli perfformiad yn gosod targedau realistig sy’n gysylltiedig â blaenoriaethau’r ysgol. Cyfranna hyn oll yn effeithiol tuag at godi safonau ac at adnabod anghenion y disgyblion.

Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion eraill yn effeithio’n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Enghreifftiau o hyn yw’r rhannu arferion da ar agweddau o lythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn rheolaidd gyda chefnogaeth swyddog cyllid yr awdurdod.  Mae hyn yn sicrhau bod darpariaeth briodol i gyfarfod â'r cynnydd disgwyliedig yn niferoedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen ym Medi 2014.

O ystyried y deilliannau da a chynnydd disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Niferoedd bach o ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 a 2013, ac felly, nid yw'n briodol cymharu perfformiad yr ysgol â meincnodau cenedlaethol.

Mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2 o gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, wedi amrywio'n sylweddol dros y cyfnod 2010 i 2013. Bu perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y 25% uchaf yn 2010 a 2013 ac yn 25% isaf yn ystod y blynyddoedd eraill. Nid yw perfformiad ar lefel 5 cystal gan iddo fod, gan amlaf, yn y 50% is ym mhob pwnc. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn is nag mewn unrhyw bwnc arall.

Nid oedd unrhyw duedd cyson o wahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched o un flwyddyn i'r llall. Dros gyfnod, mae disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â gweddill y garfan.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 14 | 14<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 11 | 11<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 14 | 14<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 14 | 14<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 14 | 14<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 14 | 14<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 14 | 14<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 14 | 14<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 14 | 11<br>79%<br>91% | 3<br>21%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 14 | 13<br>93%<br>95% | 1<br>7%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 13 | 11<br>85%<br>77% | 2<br>15%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 13 | 13<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 14 | 5 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 36% | 64% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 15 | 14 | 1 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 15 | 5 | 7 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 33% | 47% | 7% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 15 | 8 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 53% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 15 | 6 | 6 | 0 | 0 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 40% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 15 | 4 | 9 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 27% | 60% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 14 | 4 | 5 | 4 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 29% | 36% | 29% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 10 | 3 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 67% | 20% | 7% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 15 | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 14 | 5 | 7 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 36% | 50% | 7% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 5<br>33% | 7<br>47% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 15 | 8<br>53% | 6<br>40% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 15 | 8<br>53% | 5<br>33% | 1<br>7% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 15 | 7<br>47% | 8<br>53% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 12 | 4<br>33% | 5<br>42% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 9<br>60% | 5<br>33% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 15 | 5<br>33% | 7<br>47% | 2<br>13% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| William Williams | Arolygydd Cofnodol |
| David Davies | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Kevin Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ann Jones | Nominee |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.